# ERA Newsletter

*For Schools in Wales*

educational recording agency

## S4C Programmes to Watch Out For

Keep an eye on the S4C schedules for details of programmes which could be useful for your lessons. Children's services **Cyw,** for very young children, and **Stwnsh** aimed at 7-13 year olds are a great place to start and the rest of the schedule is also peppered with useful content. Here are just a few.

**T. Llew Jones.** This October saw the centenary of the birth of the acclaimed Welsh author. To commemorate, S4C scheduled several special programmes about the late author and poet, including a new documentary ***T. Llew Jones*** and, from the archive, the film adaptation of his classic novel, ***Tân ar y Comin.*** All programmes available online until the second week in November.

**#Fi.** Award-winning documentary series reflecting the diverse lives of youngsters. Featuring a range of topics, from personal difficulties to extraordinary experiences. Every Wednesday at 5.20 and catch up online.

**Dyma Fi.** A week of special programmes in November for young people. Includes special debate programme ***Hacio'n Holi*** as secondary school children debate topics which matter to them.

**Arfordir Cymru: Llŷn.** A new series which explores the history, the people and the landscape of the Llŷn Peninsula. Starts Sunday 8 November 7.30.

**Jen a Jim Pob Dim.** A series all about mathematics, and follows the curriculum for **Foundation Phase** (ages 4-5). Based in a shop, run by lively characters Jen and Jim, mathematical problems are presented in a fun and colourful way, encouraging children to get involved. Part of the **Cyw** service and will also include online games and activities.

Most programmes are available with **English subtitles.**

Details including broadcast times will be available closer to the time on the **s4c.cymru website or @S4C,** and updates will be available on @eraresources

**DVD copies of S4C programmes are available on request** for educational purposes. Contact the S4C Viewers' Hotline to request an application form. Contact details on **s4c.cymru/contact**



## PSHE Teaching – Llond Ceg

PSHE is currently a non-statutory subject, however schools are required to make provision for PSHE Education, drawing on 'good practice'.

Finding resource and support materials for this subject can be difficult given the broad frameworks currently provided. Helpfully, S4C has developed ***'Llond Ceg',*** a series discussing and debating the issues important to young people with subjects covered ranging from self-image to divorce, relationships and social media.

Presented by Radio 1's Surgery presenter Aled Haydn Jones, co-presented by Kizzy Crawford and Geraint Hardy, the series is designed for children aged 8-14 and English subtitles are available. Your ERA Licence ensures you can make copies of any of these programmes and show clips (or whole programmes) to you class, or ask pupils to view them at home prior to classroom discussions.

**The Llond Ceg website:**
**s4c.cymru/llondceg** offers further advice and clips as well as previous episodes, including one on Mental Health and another on Self Image.

**In partnership with Childline, NSPCC and the Children's Commissioner for Wales they have also produced an excellent free app** available to download from iTunes and Google Play.

**This is one of many apps made by S4C which you may find useful. For example, the Cyw service's 123 and ABC apps. All available for free. See more here:**
**s4c.cymru/cyw**

## Adding Value to the ERA Licence

Radio and television programmes can be a source of an amazing wealth of teaching resources. The ERA Licence covers material sourced from broadcasts (including accessing catch-up TV services of the UK public service broadcasters) for teaching resources and schools can make this material available to students in the classroom and at home.

Schools in Wales are licensed mainly through group licence arrangements with local authorities, or in a small number of cases, on an individual basis. As a not for profit organisation, ERA only cover our administration costs from the money we collect from licensing. We pay everything else to our Members. This ensures that Rightsholders are being paid fairly for the work they have created. Follow us on Twitter **@ERAResources** for updates on upcoming programmes or go the Resources section of the ERA website for case studies from other teachers.

# ERA Newsletter

*For Schools in Wales*

educational recording agency

## Rhaglenni defnyddiol ar S4C

Cadwch lygad ar amserlenni S4C am fanylion rhaglenni all fod yn ddefnyddiol i chi. Mae gwasanaeth **Cyw,** i blant bach iawn, a **Stwnsh** ar gyfer 7-13, yn wych fel man cychwyn, ond mae'r amserlen gyfan yn llawn cynnwys defnyddiol. Dyma rai esiamplau.

**T. Llew Jones.** Ym mis Hydref dathlwyd 100 mlwyddiant geni'r awdur. I nodi'r achlysur, fe ddarlledodd S4C sawl rhaglen arbennig am ei waith a'i fywyd, yn cynnwys rhaglen ddogfen newydd ***T. Llew Jones*** ac, o'r archif, addasiad ffilm o'r nofel ***Tân ar y Comin.*** Mae pob rhaglen ar gael ar-lein hyd at yr ail wythnos ym mis Tachwedd.

**#Fi.** Mae'r gyfres hon wedi ennill gwobrau am ei rhaglenni dogfen sy'n adlewyrchu bywydau amrywiol pobl ifanc. O gyfnodau trist i brofiadau anghyffredin, y bobl ifanc eu hunain sy'n adrodd eu stori. Bob prynhawn Mercher am 5.20 ac ar alw ar-lein.

**Dyma Fi.** Wythnos arbennig o raglenni i bobl ifanc yng nghanol mis Tachwedd. Yn cynnwys rhaglen drafod arbennig ***Hacio'n Holi.***

**Arfordir Cymru:** Llŷn. Cyfres newydd sy'n dechrau ar nos Sul 8 Tachwedd 7.30, ac sy'n archwilio hanes, pobl a thirwedd arfordir Pen Llŷn.

**Jen a Jim Pob Dim.** Cyfres am rifau a rhifyddeg yn addas ar gyfer **Cyfnod Sylfaen** (oed 4-5). Wedi ei gosod mewn siop, yng ngofal y cymeriadau Jen a Jim, mae'r gyfres yn cyflwyno problemau mathemateg mewn ffordd liwgar a hwyliog, i annog plant i gymryd rhan. Rhan o wasanaeth **Cyw** fydd hefyd yn cynnwys gemau a gweithgareddau ar-lein.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhaglenni ar gael gydag isdeitlau Saesneg.

Bydd rhagor o wybodaeth yn cynnwys manylion darlledu ar gael yn nes ymlaen ar wefan **s4c.cymru neu @S4C,** gyda diweddariadau ar gael ar @eraresources

Mae modd gwneud **cais am gopïau DVD o raglenni S4C** ar gyfer defnydd addysgiadol. Cysylltwch â Gwifren Gwylwyr S4C am ffurflen gais. Mae'r manylion cyswllt ar s4c.cymru/cysylltu



## Addysg Bersonol a Chymdeithasol – Llond Ceg

Nid yw'n orfodol i ddysgu pwnc Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh), er hyn mae disgwyl i ysgolion ddarparu addysg gan ddwyn ar 'arfer da'.

Mae dod o hyd i adnoddau ar gyfer y pwnc yma yn gallu bod yn anodd o ystyried pa mor eang yw'r fframwaith. Ond mae S4C wedi datblygu adnodd ***Llond Ceg,*** cyfres sy'n trafod materion sydd o bwys i bobl ifanc, gyda phynciau yn amrywio o ddelwedd i ysgariad, perthynas a chyfryngau cymdeithasol.

Yn cyflwyno mae Aled Haydn Jones, cyflwynydd rhaglen Surgery Radio 1, hefyd Kizzy Crawford a Geraint Hardy. Mae wedi ei greu ar gyfer plant 8-14 oed, ac mae isdeitlau Saesneg ar gael. Mae eich trwydded ERA yn gofalu fod modd i chi wneud copïau o unrhyw un o'r rhaglenni yma a dangos clipiau (neu raglenni llawn) i'ch dosbarthiadau, neu ofyn i ddisgyblion wylio nhw adref cyn cynnal trafodaeth yn yr ystafell ddosbarth.

**Mae gwefan Llond Ceg**
s4c.cymru/llondceg yn cynnwys cyngor a chlipiau gwylio pellach.

Mewn partneriaeth â Childline, NSPCC a Chomisiynydd Plant Cymru **mae S4C hefyd wedi datblygu ap** sydd ar gael am ddim o iTunes neu Google Play.

**Mae ymhlith sawl ap S4C all fod yn ddefnyddiol i chi yn yr ystafell ddosbarth. Er enghraifft, apiau gwasanaeth Cyw sy'n cynnwys 123 ac ABC. Ar gael am ddim. Mae mwy o wybodaeth ar gael yma: s4c.cymru/cyw**

## Gwerth y drwydded ERA

Gall rhaglenni radio a theledu fod yn adnodd addysg ddefnyddiol ar gyfer yr ystafell ddosbarth. Mae'r drwydded ERA yn caniatáu i chi ddefnyddio cynnwys o raglenni sydd wedi eu darlledu (yn cynnwys ar wasanaethau gwylio ar alw sianeli darlledu cyhoeddus y DU) fel adnoddau addysg ac mae modd i'r ysgolion ddarparu'r cynnwys ar gyfer y disgyblion i'w gwylio yn yr ystafell ddosbarth neu yn y cartref.

Mae ysgolion yng Nghymru yn cael eu trwyddedu drwy drefniant trwydded grŵp gyda'r awdurdodau lleol, neu mae nifer fechan o ysgolion wedi eu trwyddedu yn unigol. Mae'n sefydliad nid-er-elw, gydag arian y drwydded yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith gweinyddol yn unig ERA. Mae gweddill yr arian er budd ein haelodau. Mae hyn yn golygu fod Deiliaid Hawliau yn cael pris teg am eu gwaith. Dilynwch ni ar Twitter **@ERAResources** am y diweddaraf am raglenni neu ewch i'r adran 'Resources' ar wefan ERA i ddarllen am brofiadau athrawon eraill.